Hawdd ei Ddeall

# Diweddariad ar Engage to Change

## Beth mae angen inni ei wneud i gefnogi pobl gydag anabledd dysgu neu ASD i gael mynd i'r gwaith



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Dr Steve Beyer, o'r Tîm Gwerthuso Engage to Change ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **'Briff Engage to Change: Pa newidiadau polisi sydd eu hangen i ddarparu mynediad cyfartal i'r farchnad lafur yng Nghymru i bobl gydag anabledd dysgu neu ASD?'.**

**Gorffennaf 2020**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriadu a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd eu darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n eu hadnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl wedi'i ysgrifennu mewn blwch o dan y gair.




Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 19**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Engage to Change**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:




**Gwefan**: [www.engagetochange.org.uk/?lang=cy](http://www.engagetochange.org.uk/?lang=cy)

**E-bost**: [engagetochange@ldw.org.uk](mailto:engagetochange@ldw.org.uk)

**Ffôn**: 029 20681160

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Am beth mae'r ddogfen yma



Mae'r ddogfen yma yn dweud beth ddylen ni ei wneud i gefnogi pobl gydag anabledd dysgu ac **ASD** i:



- chwilio a chael swydd
- dysgu a chadw swydd.



**ASD** ydy **Anhwylderau Sbectrwm Awtistig**. Mae hefyd yn cael ei alw yn **awtistiaeth**. Mae pobl gydag **ASD** efallai yn cael rhai pethau yn anodd. Fel cyfathrebu a bod gyda phobl eraill.



Mae pobl gydag anabledd dysgu ac ASD yn wynebu llawer o heriau wrth geisio chwilio a chadw gwaith gyda chyflog.Ac mae ganddyn nhw lawer o anghenion gwahanol.



Mae'r nifer o bobl gydag anabledd dysgu neu ASD sydd mewn gwaith gyda chyflog yn isel iawn. Er mwyn newid hyn rhaid inni gynnig cefnogaeth sydd yn iawn i bob person.



Rydyn ni'n ceisio dangos sut mae'r gefnogaeth yma yn edrych drwy'r **prosiect Engage to Change**.

# Engage to Change

Mae Engage to Change yn brosiect sydd yn cefnogi pobl ifanc gydag anabledd dysgu neu ASD i gael swyddi gyda chyflog.



Drwy ein gwaith rydyn ni wedi dysgu bod defnyddio hyfforddwr swyddi yn un o'r ffyrdd gorau i gefnogi pobl gydag anabledd dysgu neu ASD.



Ac rydyn ni wedi dysgu bod pobl gydag anghenion cefnogi uchel **yn** gallu cael a chadw swydd pan:



- Rydyn ni'n cymryd amser i ddysgu rhagor am y person. Er enghraifft, beth maen nhw'n hoffi a beth maen nhw'n ei wneud yn dda.



- Maen nhw'n gallu rhoi cynnig ar swyddi i'w helpu nhw benderfynu beth maen nhw'n hoffi.



- Rydyn ni'n darganfod y swydd gywir ar gyfer eu hanghenion a'u sgiliau.



- Rydyn ni'n rhoi cyngor a chefnogaeth i gyflogwyr ar beth mae angen iddyn nhw wneud.



- Mae pobl a'u teuluoedd yn cael cefnogaeth i ddeall sut y mae gwaith efallai yn newid unrhyw fudd-daliadau maen nhw'n ei gael. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n well allan mewn gwaith.



Mae'r prosiect Engage to Change yn gwneud yn dda iawn. Hyd yn hyn mae dros 600 o bobl wedi cael eu cyfeirio at y prosiect, ac:



- mae 388 o bobl ifanc wedi cael lleoliadau gwaith gyda chyflog
- mae 224 o bobl ifanc wedi cael swyddi gyda chyflog
- rydyn ni wedi cefnogi 454 o gyflogwyr.



Dim ond nifer fach iawn o bobl ifanc sydd wedi cael **dim** profiad gwaith cyn ymuno gydag Engage to Change.



Doedden nhw **ddim** yn cael trafferth i ddarganfod swydd oherwydd bod ganddyn nhw ddim profiad. Roedden nhw'n cael trafferth oherwydd bod ganddyn nhw ddim y gefnogaeth gywir.

## Cefnogi cyflogwyr



Rydyn ni wedi gweithio gyda llawer o gyflogwyr i gynnig lleoliadau gwaith gyda chyflog.




Mae'r cyflogwyr yn cael arian am hyd at 6 mis pan mae rhywun o'n prosiect ni yn gweithio iddyn nhw. Mae hyn yn gallu talu am gyflog y person ifanc.



Mae hyn yn rhoi amser i gyflogwyr i weithio gyda'r person ifanc a dod i arfer gyda'u hanghenion.



Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i gyflogwyr. Mae wedi eu helpu nhw i fod yn fwy hyderus i roi swydd i rhywun gydag anabledd dysgu neu ASD.

# Coronafeirws



Mae coronafeirws yn mynd i feddwl bydd yna llawer llai o arian yng Nghymru. Mae hyn yn meddwl y bydd yna lai o swyddi hefyd mae'n debyg. Ac fe fydd llawer o bobl yn ei chael hi'n fwy anodd i gael swydd.



Mae hyn yn meddwl bydd rhagor o bobl angen cefnogaeth i gael swyddi gyda chyflog. Ac efallai y bydd pobl anabl yn ei chael yn fwy anodd i gael gwaith gyda chyflog nag o'r blaen.



Hyd yn oed cyn coronafeirws, roedd gwasanaethau cefnogi yn ei chael hi'n anodd i ateb anghenion pobl anabl.



Er mwyn cenfogi pobl gyag anabledd  dysgu neu ASD, rhaid i'r llywodraeth a gwasanaethau cefnogi weithio gyda'i gilydd i:

- rhoi gwasanaethau cyflogaeth gyda chefnogaeth da i bobl sydd yn meddwl hyfforddiant swyddi hefyd

- talu am **Wasanaeth Hyfforddiant Swyddi Cenedlaethol**.



Oherwydd coronafeirws fe fydd rhagor o bobl angen budd-daliadau hefyd. Rhaid inni wneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r gefnogaeth i gael budd-daliadau pan maen nhw eu hangen nhw.




A rhaid inni gael cefnogaeth yn barod i helpu pobl i fynd yn ôl i'r gwaith ar ôl coronafeirws.

## Cefnogi cyflogwyr yn  ystod coronafeirws



Rhaid inni weithio gyda chyflogwyr i'w cefnogi nhw i roi swyddi i bobl anabl. A'u dysgu nhw am yr holl resymau da i weithio gyda phobl anabl.




Ar yr amser anodd yma. Dydy cyflogwyr ddim yn mynd i fod eisiau cymryd unrhyw risgiau gydag i bwy maen nhw'n rhoi swyddi. Ac maen nhw'n llai tebygol o gymryd siawns ar berson anabl.



Mae hyfforddiant swyddi yn bwysig i bobl anabl ar yr amser yma. Mae'n gallu helpu i:

- gosod pobl gyda'r swyddi cywir



- rhoi cefnogaeth am ddim wrth ddechrau swydd newydd a hyfforddiant ar gyfer swydd



- rhoi cefnogaeth ychwanegol fel hyfforddiant ymwybyddiaeth.



Mae'r cyflogwyr rydyn ni wedi gweithio gyda nhw wedi bod yn hapus iawn gyda'r person maen nhw wedi rhoi swydd iddyn nhw. Ac fe fydden nhw'n hapus i roi swydd i berson anabl arall os ydyn nhw'n cael yr un lefel o gefnogaeth eto.




Rydyn ni'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru gynnig arian i gyflogwyr i weithio gyda phobl anabl i helpu i dalu eu cyflogau pan maen nhw'n dechrau gwaith newydd.



Mae llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn rhoi arian i gyflogwyr os ydyn nhw'n rhoi swyddi i bobl ifanc. Ac rydyn ni'n poeni y bydd hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i bobl gydag anabledd dysgu neu ASD i gael swyddi.



Fe fydd rhoi arian i gyflogwyr am weithio gyda phobl anabl yn rhoi'r un cyfle i bobl anabl gael swydd.

## Rôl Engage to Change

Mae Engage to Change wedi bod yn bwysig iawn dros y 3 blynedd diwethaf yn darganfod sut orau i gefnogi pobl gydag anabledd dysgu neu ASD i gael gwaith.



Rydyn ni wedi dysgu llawer ac rydyn ni'n credu ein bod yn gallu:

- cefnogi pobl i fynd yn ôl i'r gwaith ar ôl coronafeirws



- dweud wrth bobl beth mae angen iddyn nhw ei wneud i helpu i gefnogi pobl gydag anabledd dysgu neu ASD i gael gwaith
- gwneud yn siŵr bod gan bobl gydag anabledd dysgu neu ASD y gefnogaeth gywir i ddarganfod a chadw swydd ar ôl coronafeirws.

# Beth rydyn ni wedi ei ddysgu

## Prentisiaethau



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i ragor o bobl gael **prenstisiaeth**.



**Prentisiaeth** ydy pan mae person yn dysgu sgiliau swydd tra maen nhw'n gweithio. Maen nhw fel arfer yn cael llai o arian oherwydd eu bod nhw'n dal i ddysgu.



Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd angen hyfforddwyr swyddi i bobl gydag anabledd dysgu neu ASD i wneud i hyn ddigwydd.



Fe fyddai **Gwasanaeth Hyfforddiant Swyddi Cenedlaethol** yn cefnogi hyn.

## Interniaethau



Mae Engage to Change wedi dangos bod pobl gydag anabledd dysgu neu ASD yn gwneud yn dda mewn **interniaethau** 1 blwyddyn hefyd.



**Interniaeth** ydy pan mae myfyriwr yn gweithio i gorff i gael hyfforddiant.



Mae interniaethau yn rhoi mwy o amser i bobl ifanc sydd efallai yn ei chael yn anodd i gael swydd i ddysgu'r sgiliau maen nhw eu hangen.

Mae hyn hefyd yn rhoi mwy o amser i gyflogwyr helpu'r pobl ifanc i ddod i arfer gyda'r swydd.



Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru dalu am **Raglen Interniaeth Genedlaethol** sydd yn defnyddio cefnogaeth gan y **Gwasanaeth Hyfforddiant Swyddi Cenedlaethol**.



Fe fyddai hyn yn rhoi gwell cefnogaeth i bobl wrth iddyn nhw adael ysgol neu goleg. Ar hyn o bryd does yna ddim llawer o gefnogaeth i bobl gydag anabledd dysgu neu ASD pan maen nhw'n gadael ysgol neu goleg.


## Mynediad i Waith



**Mynediad i Waith** ydy arian gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**. I gefnogi pobl anabl i gael swydd gyda chyflog.



Mae Mynediad i Waith wedi helpu Engage to Change i gefnogi rhagor o bobl.



Mae gennym ni ffordd dda o weithio gyda DWP ar hyn. Rydyn ni'n gweithio gyda  thîm o bobl sydd yn gwybod popeth am ein prosiect a beth rydyn ni'n wneud.

Mae hyn yn ffordd dda o weithio ac rydyn ni'n meddwl y dylai unrhyw brosiectau cefnogi cyflogaeth weithio fel hyn hefyd.



Er mwyn gwneud i interniaethau weithio mae angen i **DWP** newid y ffordd y mae arian **Mynediad i Waith** yn gallu cael ei ddefnyddio.

Mae angen iddyn nhw wneud iddo weithio gydag arian ar gyfer hyfforddiant swyddi. Ac mae angen iddyn nhw ei wneud yn fwy hawdd i bobl ddefnyddio arian Mynediad i Waith.



Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda DWP a Mynediad i Waith i wneud i hyn ddigwydd.

## Llywodraeth Cymru




Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o bolisïau a chynlluniau i wneud bywydau pobl anabl yng Nghymru yn well.



Mae llawer o'r cynlluniau yn siarad am pa mor bwysig ydy cyflogaeth i bobl anabl. Mae cyflogaeth yn bwysig iawn ar gyfer llesiant.



Rydyn ni'n meddwl bod angen:

- cynllun hyfforddiant swyddi cenedlaethol
- a rhaglen lleoliad gwaith gyda chyflog,




Fe fydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd eu nodau i gefnogi pobl anabl i gael gwaith gyda chyflog. Ac mae hyn yn ffitio'i mewn yn dda gyda'u holl gynlluniau.



Fe fydd cynnig y math yma o gefnogaeth yn fwy rhad i'r llywodraeth ac yn well i bobl yn y tymor hir.

## Cefnogaeth leol




Rydyn ni wedi dysgu ei bod yn well cael hyfforddwyr swyddi o’r un ardal leol â chyflogwyr.



Mae hyfforddwyr swyddi lleol yn deall anghenion cyflogwyr lleol yn well. Ac maen nhw’n gallu gweithio yn well gyda chyflogwyr.




Mae angen inni wneud hyn yng Nghymru. Fe ddylai’r **Gwasanaeth Hyfforddiant Swyddi Cenedlaethol** wneud yn siŵr bod gwasanaethau cefnogi **lleol** yn gweithio gyda chyflogwyr **lleol**.



Mae’n bwysig iawn hefyd bod awdurdodua lleol yn cymryd rhan mewn cyflogaeth gyda chefnogaeth.



Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau i gadw swyddi a gwneud swyddi newydd yn yr amser anodd yma.



Fe ddylen nhw wneud yn siŵr eu bod nhw'n rhoi cefnogaeth yn unig i bob gwahanol fath o bobl, yn cynnwys pobl anabl.



Mae'r **Gwasanaeth Hyfforddiant Swyddi Cenedlaethol** yn gallu cael ei ddefnyddio i gefnogi cyflogwyr gyda hyn. Fe fyddan nhw'n cael cefnogaeth ychwanegol er mwyn iddyn nhw deimlo'n fwy hyderus ynghylch gweithio gyda phobl anabl.

# Beth nesaf?



Mae angen inni wneud yn siŵr bod pobl anabl ddim yn ceel eu anghofio. Yn enwedig ar ôl coronafeirws. Mae angen inni:



- Dim ond talu a defnyddio gwasanaethau sydd yn rhoi cyflogaeth gyda chefnogaeth mewn ffordd rydyn ni'n gwybod sydd yn gweithio orau i bobl.



- Gwneud yn siŵr bod yna gynlluniau clir ar gyfer cyflogaeth gyda chefnogaeth. A gwneud yn siŵr bod yna ddigon o arian i'w rhedeg nhw.



- Talu am **Wasanaeth Hyfforddiant Swyddi Cenedlaethol.**



- Dechrau **Gwasanaeth Interniaeth gyda chefnogaeth Cenedlaethol.**



- Gwneud yn siŵr bod cynlluniau gyda prentisiaethau yn digwydd a'u bod nhw'n cynnwys hyfforddiant swyddi.




- Newid y ffordd mae arian **Mynediad i Waith** yn gweithio.



- Dechrau gwasanaeth newydd o'r enw **Cymorth Swyddi Cymru** a gwneud yn siŵr ei fod yn cefnogi pobl gydag anabledd dysgu neu ASD.




- Meddwl am ddechrau grant newydd sydd yn rhoi arian i gyflogwyr i helpu gyda chyflogau i bobl anabl.



- Dim ond defnyddio gwasanaethau sydd yn lleol ac sydd yn gweithio gyda phobl anabl.

# Geiriau anodd

## Prentisiaeth

Prentisiaeth ydy pan mae person yn dysgu sgiliau swydd tra'n gweithio. Fel arfer maen nhw'n cael llai o arian oherwydd eu bod nhw'n dal i ddysgu.

## ASD

ASD ydy Anhwylderau Sbectrwm Awtistig. Mae hefyd yn cael ei alw yn awtistiaeth. Mae pobl gydag ASD efallai yn cael rhai pethau yn anodd. Fel cyfathrebu a bod gyda phobl eraill.

## Interniaeth

Interniaeth ydy pan mae myfyriwr yn gweithio i gorff i gael hyfforddiant.